Gwasanaeth Gwirfoddol
BIP Caerdydd a'r Fro

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

GWIRFODDOLWR Y GANOLFAN WYBODAETH

Profiad y Claf
18 oed a throsodd

Lleoliad
Ysbyty Athrofaol Cymru

Yn adrodd i
Rheolwr y Ganolfan Wybodaeth

Yn atebol i
Rheolwr Tîm Gwasanaethau Gwirfoddol

Ymrwymiad Amser
2 awr yr wythnos am o leiaf 6 mis
Llun-Gwener

Gwiriadau Gofynnol
DBS (Gwiriad Cofnodion Troseddol)
Gwiriad Iechyd Galwedigaethol
Dau Eirda

Treuliau
Caiff treuliau teithio i/o leoliadau ar ddiwrnod gwirfoddoli eu had-dalu

GOFYNION PERSONOL

- Meddu ar sgiliau gwrando rhagorol a bod yn anfeirniadol.
- Bod yn hyderus wrth gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr, staff ac aelodau o'r cyhoedd.
- Bod yn frwdfrydig am nodau a gwaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Dangos lefelau o empathi a dealltwriaeth bob amser.
- Edrych yn drwsiadus, yn smart a gwisgo gwisg a bathodyn adnabod Gwirfoddolwr Bwrdd Iechyd y Brifysgol bob amser.
- Cydnabod pryd i atgyfeirio materion a chwestiynau at staff Bwrdd Iechyd y Brifysgol.

AMLINELLIAD O'R DYLETSWYDDAU

Y nod cyffredinol yw darparu gwybodaeth briodol a pherthnasol i ymwelwyr, cleifion, staff a gofalwyr sy'n defnyddio'r Canolfannau Gwybodaeth a Chymorth a'u cyfeirio at ffynonellau cymorth.

- Cwrdd a chyfarch ymwelwyr â'r Ganolfan.
- Asesu eu hanghenion gwybodaeth a chymorth.
- Darparu gwybodaeth sylfaenol a'u cyfeirio at yr adnoddau priodol.
- Cynnig clust i wrando a chymorth anffurfiol, gan roi cyfle i bobl siarad am eu profiadau, gan gynnwys cleifion a'u teuluoedd a allai fod yn derbyn gofal diwedd oes
- Rhoi cyfarwyddiadau i ymwelwyr â'r ysbyty.

PRIF DASGAU

- Helpu ymwelwyr i ddod o hyd i daflenni gwybodaeth
- Ailgyflenwi stondinau arddangos y Ganolfan gyda llyfrynnau a thaflenni.
- Cynorthwyo â phrosesau rheoli stoc
- Casglu data perthnasol
- Gwneud i ddefnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr a'r cyhoedd deimlo bod croeso iddynt drwy eu cyfeirio neu fynd gyda hwy i'r ward neu'r adran sy'n ofynnol.
- Helpu i ateb ymholiadau priodol.

HYFFORDDIANT A CHEFNOGAETH

Bydd angen i wirfoddolwyr ymgymryd â hyfforddiant a phroses sefydlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Caiff anghenion hyfforddi eu nodi drwy'r broses oruchwylio a'u diwallu drwy Raglenni Hyfforddi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd hyfforddiant ychwanegol sy'n berthnasol i'r Ganolfan Wybodaeth yn cael ei ddarparu gan Reolwr y Ganolfan Wybodaeth a Macmillan.

Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu trin yn gynhwysol gan y Tîm Gwasanaethau Gwirfoddol a byddant yn cael cynnig goruchwyliaeth ac arweiniad parhaus. Nid yw'r rôl hon yn cynnwys cwnsela.

CANLLAWIAU COVID-19 PENODOL

- Bydd angen i bob Gwirfoddolwr gwblhau asesiad risg unigol cyn dechrau
- Rhaid i bob gwirfoddolwr fod yn ymwybodol o'r angen i roi'r gorau i wirfoddoli os yw'n teimlo'n sâl neu os yw'n byw gyda rhywun sydd â symptomau ac i ddilyn cyngor diweddaraf y llywodraeth a'r GIG yn enwedig o ran symptomau COVID-19
- Caiff hyfforddiant, arweiniad a phroses sefydlu eu darparu drwy e-ddysgu neu dechnoleg rithwir lle bo hynny'n bosibl
- Rhaid darparu'r lefelau gofynnol o PPE i wirfoddolwyr a'u hyfforddi i ddefnyddio, gwisgo, diosg a gwaredu PPE yn unol â chanllawiau Bwrdd Iechyd y Brifysgol

MANTEISION I'R GWIRFODDOLWR

- Profiad o weithio mewn tîm.
- Boddhad o gynorthwyo eraill a darparu gwasanaeth amhrisiadwy i'r Bwrdd Iechyd a'r gymuned
- Cyfle i ddatblygu sgiliau a phrofiad personol
- Cyfle i gwrdd â phobl newydd

MANYLEB Y PERSON

Meini prawf	Hanfodol	Dymunol
Deall pwysigrwydd cyfrinachedd a dilyn gweithdrefnau	✓	
Profiad o weithio mewn lleoliad gofal iechyd		✓
Sgiliau cyfathrebu da	✓	
Gallu siarad Cymraeg		✓
Gallu gweithio'n annibynnol neu fel rhan o dîm	✓	
Dibynadwy a phrydlon	✓	
Profiad o fod yn gyfaill		✓
Profiad o wirfoddoli	✓	
Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant	✓	
Ar gael i wirfoddoli am o leiaf 2 awr yr wythnos	✓	
Brwdfrydig a llawn cymhelliant	✓	

Profiad y Claf
Gwrando a Dysgu

Kind and caring | Respectful | Trust and integrity | Personal responsibility